# Urdd Gobaith Cymru

## Canllawiau Cystadlu
## Eisteddfodau a Chelf a Chrefft
## Rhanbarth Môn 2017

Os am gystadlu yn yr Eisteddfodau eleni, rhaid darllen y llyfryn hwn a'r Rhestr Testunau yn fanwl.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwymo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad.

Pob hwyl gyda'r cystadlu!

Eryl, Seiriol a Carol.

**Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag.**

Rhanbarth Môn

eryl@urdd.org
01407 470010 07976003314

# EISTEDDFODAU URDD GOBAITH CYMRU MÔN 2017

Annwyl Gyfaill

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio nifer o bwyntiau sy'n codi ynglŷn ag Eisteddfodau a'r rheolau sydd yn rhaid eu dilyn. Gobeithio y bydd o fudd i chi ac yn ateb unrhyw gwestiwn neu ymholiad. Os nad yw'r ateb yma, yna cysylltwch â Swyddfa'r Urdd, Ynys Môn 01407 470 010 neu 07976003314 neu'r Adran Eisteddfod yng Nglan-llyn (01678 541012). Diolch.

Eryl Williams
Uwch Swyddog Datblygu

---

**Eisteddfod Yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017**

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái rhwng 29 Mai - 3 Mehefin 2017. Cynhelir yr Eisteddfod ar dir Coleg Pen-y-bont, Campws Pencoed. NODER: Does dim mynediad ar gael i'r Maes nac i'r meysydd parcio trwy fynedfa'r Coleg. Dilynwch arwyddion swyddogol yr Eisteddfod wrth deithio i'r Maes

**TOCYNNAU EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU 2017**

Mae tocynnau Maes a Chyngherddau ar werth o'r 1af o Chwefror 2017, ac am bris gostyngol hyd y 1af o Fai 2017. Os am archebu tocynnau ffoniwch **0845 257 1639** ac ar gyfer ymholiadau cyffredinol ffoniwch **0345 257 1613**
**Mae modd archebu tocynnau ar lein: www.urdd.cymru** yna cliciwch ar
**Eisteddfod/Ymweld â'r Eisteddfod/Prynu Tocynnau**

**Rhestr Testunau 2017**

Os ydych yn awyddus i gymryd rhan eleni, ewch i bori drwy'r Rhestr Testunau! Mae rhywbeth yno at ddant pawb!

Mae Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd 2017 ar gael yn y siopau Cymraeg yn eich ardal, neu mae modd lawr lwytho'r wybodaeth yn rhad ac am ddim o'r safle we: **www.urdd.cymru** yna cliciwch ar '**Eisteddfod'**, yna '**Rhestr Testunau 2017'**. Mae hefyd copï Saesneg ar gael ar y wefan.

# Dyddiadau Eisteddfodau Ynys Môn 2017

**Dyddiadau Cau Ynys Môn**
Chwefror 14eg **Dyddiad cau ar gyfer cofrestru i gystadlu**

**Eisteddfod Cylch Glannau Menai**
Mawrth 4ydd – Ysgol David Hughes, Porthaethwy

**Eisteddfod Cylch Alaw/Cybi**
Mawrth 4ydd – Ysgol Uwchradd Bodedern

**Eisteddfod Cylch Eilian**
Mawrth 11eg – Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch

**Eisteddfod Cylch Cefni**
Mawrth 11eg – Ysgol Gyfun Llangefni

## Eisteddfodau Rhanbarth

Mawrth 18fed – Eisteddfod Uwchradd, Aelwydydd a 19-25 – Ysgol Uwchradd Bodedern
Mawrth 20fed – Eisteddfod Dawns a Theatr Cynradd ac Uwchradd- Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch
Mawrth 25ain – Eisteddfod Cynradd – Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch

**PWYSIG! DYDDIAD CAU Ynys Môn AR GYFER COFRESTRU:**

**14 Chwefror 2017** **Dyddiad cau cofrestru i gystadlu ar-lein (6yh)**

**17 Chwefror 2017** **Cyfnod gwirio yn dod i ben (6yh)**

**Copïau Hunan Ddewisiad:** Rhaid i bob copï o ddarnau'r cystadleuwyr gyrraedd Ysgrifennydd y Cylch. Gofalwch amgau daflen yn nodi enw, ysgol, cystadleuaeth ac ati, gan eu ddiogeli i'r darn (tudalen 13 y llyfryn hwn).

**31 Mawrth 2017** **Celf, Dylunio a Thechnoleg:** Dyddiad Cau ar gyfer cofrestru ar lein (5yh). Ni fydd cyfnod gwirio.

## RHESTR YSGRIFENYDDION CYLCHOEDD

| | |
|---|---|
| Cylch Cefni | Greta Stuart, Rhyd Dafydd, Rhosgoch, Amlwch, Ynys Môn**.**<br>LL66 0BG -Rhif ffôn 01407 830 567<br>e-bost greta.stuart@llandegfan.anglesey.sch.uk |
| Cylch Eilian | Alwen Jones, Llifon,21 Tan y Bryn Road,Amlwch,Ynys Môn<br>LL68 9BD 01407 831353 Alwen Jones alwen_jo@yahoo.co.uk |
| Cylch Alaw/Cybi | Dion Owen,Ysgol Llannerchymedd, Ynys Môn<br>Dion_owen11@hotmail.com 07763074460 |
| Cylch Glannau Menai | Emma Owen, Ysgol Llanfairpwll, Llanfairpwll, Ynys Môn<br>Emmatelford27@btinternet.com 07989327589 |
| Eisteddfodau Rhanbarth | Helen Evans, Tal Eilian, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn<br>LL77 7TF 01248 723038 taleilian@hotmail.co.uk |

## SYSTEM GOFRESTRU CYSTADLEUWYR EISTEDDFOD YR URDD

Mae'r system gofrestru yn fyw ar-lein. Mae'r system yn dangos holl fanylion y cystadlaethau ynghyd ag enwau a rhifau aelodaeth eich aelodau. Ewch i **www.urdd.cymru** yna cliciwch ar '**Eisteddfod'**, yna '**Cystadlu'**, yna '**Cofrestru fel cangen**'. Ewch ati mor fuan â phosib i gofrestru eich cystadleuwyr. Unwaith bydd y dyddiad cau wedi bod ni fydd modd i ni dderbyn enwau hwyr.

- Rhaid cwblhau ac ateb yr holl ofynion, neu bydd eich cais yn aflwyddiannus. (ffurflen wyrdd)
- Rhaid cwblhau'r darn hawlfraint yn gyflawn ac yn gywir ym mhob cystadleuaeth nad sydd â darn gosod.
- Cofiwch nodi cyweirnod cerdd dant

**Sut i sicrhau copïau**

Mae copïau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ar gael i'w prynu yn eich siop lyfrau lleol neu yn uniongyrchol oddi wrth y Cyhoeddwr. Gellir hefyd gysylltu gyda Pianos Cymru ym Mhorthmadog drwy ffonio 01766 512795.

Mae nifer fechan o gopïau ar gael o Adran yr Eisteddfod yng Nglan-llyn ac mae'r rhain wedi'i nodi ger y cystadlaethau yn y Rhestr Testunau. Yn achlysurol mae copïau yn mynd allan o brint. Yn yr achos hyn, ac os ydych yn hollol siŵr nad oes copi ar gael yn lleol cysylltwch ag Adran yr Eisteddfod ar 01678 541012.

Gellir yn ogystal archebu unrhyw gopïau sydd ar gael o Adran yr Eisteddfod ar lein drwy lawrlwytho ffurflen archeb oddi ar ein gwefan **www.urdd.cymru/eisteddfod** drwy ddewis y ddolen '**Cystadlaethau'**.

## GWYBODAETH ADRANNOL:

### CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

Nifer o gystadlaethau NEWYDD eleni eto – ewch ati i weld beth sydd ar gael!

### GWAITH CARTREF

Danfoner holl gynnyrch yr adran gwaith cartref at Trefnwyr, Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST erbyn **1af o Fawrth**

### CERDDORIAETH

Gwiriwch yn ofalus niferoedd partïon / corau.
Rhaid i bob cystadleuydd yn yr Unawd 19-25 oed ddarparu cyfeilydd ei hun yn yr Eisteddfod Cylch/Rhabarth a'r Genedlaethol. Petai chi'n methu dod o hyd i rywun i'r Eisteddfod Cylch/Rhanbarth, cysylltwch â'r swyddfa o leiaf pythefnos o flaen llaw i weld a fedrwn helpu. Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw.

### OFFERYNNOL

Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu copi o'u hunan-ddewisiad ar gyfer y beirniad yn yr Eisteddfod Cylch (**i'r ysgrifennydd cylch erbyn Chwefror 17**) (*cofier bod angen labelu'r darn yn glir, sef: enw cystadleuydd, Ysgol/Cangen, rhif cystadleuaeth, enw'r gystadleuaeth – defnyddiwch y daflen amgaeedig – tudalen 14*). Un eithriad i'r rheol hon yw y gall y drymwyr yn yr Unawd Offer Taro ddarparu cynllun manwl (ar bapur) sy'n amlinellu prif nodweddion y perfformiad o adran i adran, yn hytrach na darparu copi cerddorol neu sgôr o'r gerddoriaeth.
Yn unol â phenderfyniad Bwrdd yr Eisteddfod bydd Cystadleuaeth Cerddorfa/Band dan 19 (252) yn mynd yn syth i'r Genedlaethol eleni (yn ddibynol ar nifer y cystadlu mae'n bosib y bydd Adran yr Eisteddfod yn trefnu taith beirniad.)

### CERDD DANT

Nid oes telyn na thelynor ym mhob Eisteddfod Gylch. Mae Urdd Gobaith Cymru yn darparu telynor swyddogol i'r Eisteddfod Rhanbarth. Mae angen sicrhau eich bod yn cofnodi cyweirnod ar y ffurflen gystadlu a byddwn yn hysbysu'r telynor o'r cyweirnod mewn da bryd, i'w cynorthwyo i ymarfer ymlaen llaw. Caniateir ymarfer cwpwl o fariau ar y llwyfan.

**CÂN ACTOL**
Os oes cangen o'r Urdd ym Môn am gystadlu yn y cystadlaethau Caneuon Actol rhaid i mi gael gwybod cyn y 30 Ionawr.  Cysylltwch ac Eryl@urdd.org neu ffoniwch: 01407 470 010/079760014.Diolch.

**YMGOM / CÂN ACTOL / MONOLOG / CYFLWYNIAD THEATRIG ayyb**
Ni fydd meics radio yn yr Eisteddfodau Cylch / Rhanbarth.

**Ymddangos ar lwyfan**
Rhaid i bob cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Gylch oni gwahoddir gan ysgrifennydd y Rhanbarth i fynd yn 'syth i'r Rhanbarth'. Rhaid i **bob** cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Rhanbarth ymhob achos.

**GALWEDIGAETHOL**
Mwy o gystadlaethau eleni eto! Trin Gwallt, Harddwch, Gofal Plant, Adeiladwaith i enwi rhai, Ewch i bori drwy'r rhestr testunau

**CogUrdd**
Cofiwch am ein cystadleuaeth CogUrdd, gwybodaeth ar gael gan y swyddfa neu ar ein gwefan **www.urdd.cymru**

**NEWIDIADAU YN Y RHESTR TESTUNAU**
Bydd unrhyw newidiadau i'r Rhestr Testunau yn ymddangos ar wefan yr Eisteddfod sef **www.urdd.cymru** a chlicio ar '**Eisteddfod**' yna '**Rhestr Testunau**' (*bydd unrhyw newidiadau yn ymddangos ar y dudalen hon*).  **Erfyniaf arnoch i'w hastudio'n drylwyr cyn mynd ati i ddysgu gwaith.**  Plis cadwch lygad cyson ar y wefan am unrhyw ddiweddariad.

# Beirniaid Eisteddfodau Rhanbarth Ynys Môn 2017

| Eisteddfod Uwchradd | |
|---|---|
| Cerdd | Carys Ann Owen, Gwenllian Elias, Sian Wyn Rees. |
| Cerdd Dant | Iwan Morgan |
| Llefaru | Iwan Barker Jones, |

| Dawns a Theatr | |
|---|---|
| Dawnsio Gwerin | |
| Dawnsio Stryd Hip Hop a Disgo | |
| Theatr | |

| Cynradd | |
|---|---|
| Cerdd | Deilwen Hughes, Einir Wyn Williams, Sioned Roberts |
| Cerdd Dant | |
| Llefaru | Sian Teifi, Sian Mair Williams |

# Cyfeilyddion a Thelynorion Eisteddfodau Rhanbarth

| Cyfeilyddion | Telynorion |
|---|---|
| **Cynradd**: Gres Pritchard, Anne Peters Jones | **Cynradd**: Elain Rhys Jones |
| **Uwchradd**: Gres Pritchard, Anne Peters Jones | **Uwchradd**: Elain Wyn JOnes |

Urdd

# CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYSTADLEUWYR, HYFFORDDWYR, RHIENI A CHEFNOGWYR

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr i ymrwymo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r mudiad.

Bwriad gweithgareddau'r Urdd yw sicrhau cyfle i aelodau'r Urdd gystadlu a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol a hynny o dan amodau ac ysbryd o chwarae teg, ac mewn awyrgylch gwbl ddiogel a Chymreig

Ni ddylid ar unrhyw gyfrif:

- Difrïo cystadleuwyr eraill na'u cefnogwyr
- Ddadlau neu weiddi'n amharchus tuag at swyddogion yr Urdd nac unrhyw un arall. Dylent annog eraill i beidio ag ymddwyn yn y fath fodd
- Ymddwyn yn fygythiol neu'n ymosodol tuag at eraill yn gorfforol neu ar lafar
- Beirniadu cystadleuwyr eraill yn gyhoeddus neu eu rhoi o dan bwysau annheg ac o dan straen a gofid
- Annog neu awgrymu twyllo
- Ymddwyn mewn modd annerbyniol at gystadleuwyr a chefnogwyr
- Rhoi pwysau gormodol ar blant a phobl ifanc a'u beirniadu'n gyhoeddus
- Cwestiynu yn gyhoeddus unrhyw benderfyniad gan feirniad neu swyddogion yr Urdd

Dylid:

- Parchu cyd aelodau'r Urdd a dangos chwarae teg i bawb
- Cystadlu oddi fewn i'r rheolau
- Parchu swyddogion yr Urdd, athrawon a chefnogwyr eraill gan dderbyn penderfyniadau beirniaid/dyfarniad a swyddogion
- Cyfeirio unrhyw gwyn yn y lle cyntaf i Arweinydd y Gangen a thrwyddynt hwy i Swyddogion yr Urdd
- Dylid dilyn y drefn briodol wrth godi unrhyw gŵyn neu sylw

**Swyddog Datblygu: Eryl Williams 07976003314**

Urdd

**Urdd Gobaith Cymru**

**Darnau Hunan-ddewisiad**

**Eisteddfod Cylch/Rhanbarth 2017**

**Gofynir yn garedig i chi gwblhau'r daflen hon a'i styffylu gyda phob darn hunan ddewisiad a'i anfon at yr Ysgrifennydd priodol erbyn Chwefror 17eg fan bellaf.**

**Enw** ____________________

**Cangen** ____________________

**Rhif Y Gystadleuaeth** ____________________

**Enw Cystadleuaeth** ____________________

**Nifer o ddarnau** ____________________

**Enw'r darnau**

1. ____________________
2. ____________________
3. ____________________

**COFIWCH FOD ANGEN 2 GOPI**

**Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag.**

# Rhanbarth Ynys Môn

eryl@urdd.org
01407 470 010/07976003314


## Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg 2017

**Thema: Y Dyfodol**

**Diwrnod beirniadu cynnyrch Ynys Môn yw:**

**Dydd Sadwrn Ebrill 1af**

**yng Nghampfa Ysgol Uwchradd Bodedern**

**Ysgol Uwchradd Bodedern**

**Sut i gofrestru?** Mae'r cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg ar lein (yn union fel chi'n gwneud a chystadlaethau llwyfan). Bydd angen i chi argraffu'r wybodaeth ac yna ei ddiogelu i'r gwaith. Ni fydd modd gystadlu heb y wybodaeth yma.

**Dyddiad Cau Cofrestru:** Mawrth 31 am 5yp

Bydd angen i'r cynnyrch gyrraedd rhwng 3.30 a 5 y prynhawn. Bydd yr an-fuddugol yn barod i'w gasglu Dydd Llun Ebrill 3ydd rhwng 3.30-5.00. **Ni chymerir cyfrifoldeb am unrhyw eitem na chesglir**.

Dylid sicrhau fod y darn a argraffwyd wedi ei lynu'n ddiogel ar bob eitem ac wedi eu gwblhau'n gywir.

**Cofiwch hefyd mai ond unwaith mae hawl cystadlu ym mhob cystadleuaeth**. Os oes mwy nag un darn yn perthyn i un eitem, cymeradwyir clymu'r cyfan wrth ei gilydd, gyda gwybodaeth ar bob darn.


**Ysgoloriaeth Celf Dylunio a Thechnoleg**
Yn dilyn y beirniadu Rhanbarthol fe wahoddir y 1af, 2il a'r 3ydd i'r noson wobrwyo yn Ysgol Uwchradd Bodedern nos Fercher Ebrill 5ed i dderbyn tystysgrif. Yn anffodus dim ond gwaith y 1af yn unig fydd yn cael ei arddangos.

**Rheolau Celf, Dylunio a Thechnoleg**
Gweler dudalen 24-25 o'r Rhestr Testunau

**NEWIDIADAU YN Y RHESTR TESTUNAU**
Bydd unrhyw newidiadau i'r Rhestr Testunau yn ymddangos ar wefan yr Eisteddfod sef **www.urdd.cymru** a chlicio ar **'Eisteddfod**' yna '**Rhestr Testunau**' (*bydd unrhyw newidiadau yn ymddangos ar y dudalen hon*). **Erfyniaf arnoch i'w hastudio'n drylwyr cyn mynd ati i ddysgu gwaith.** Plis cadwch lygad cyson ar y wefan am unrhyw ddiweddariad.

**Canlyniadau**
Y Buddugol ym mhob Cystadleuaeth fydd yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol
(sef y 1af yn unig yn y Cynradd a'r 1af ac 2ail yn yr Uwchradd)

**Syniadau ar y thema : Celf a Chrefft 2017**



## Diolch!

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y pecyn hwn. Mae'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i fynd ati i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Gobeithio y gwnewch fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan ac i fod yn rhan o'r hwyl.

Dymuniadau gorau gyda'r cystadlu a phob hwyl i bawb yn yr Eisteddfodau!

Cofion,

**Eryl Wiliams**
**Uwch Swyddog Datblygu**

**Ffôn swyddfa:** **01407 470 010**
**Symudol:** **07976 003314**
**E-bost:** eryl@urdd.org

# Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn


**Eryl Williams-** Uwch Swyddog Datblygu

eryl@urdd.org

**Seiriol Edwards-** Swyddog Ieuenctid

seiriol@urdd.org

**Carol Jones-** Swyddog Gweinyddol

carol@urdd.org

**01407 470010**


**Cofiwch ein dilyn i weld beth sydd ymlaen!**

Urddynysmôn

@Urddynysmôn

Ynys Môn